WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen iddo ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Alastair McQuaid a Nick Selwyn, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Blaenau Gwent? 04

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu pobl mewn angen? 13

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu pobl i ddatblygu? 20

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 23

Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ei wneud? 28


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 30

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 32

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 33

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 34

Atodiad 5 - Amcanion gwella Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 37

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 38

# Pa fath o ardal yw Blaenau Gwent?

1 Mae gan Flaenau Gwent arwynebedd o 109 $km^2$ a dyma'r ardal awdurdod lleol leiaf yng Nghymru, gan gyfrif am 0.5 y cant o gyfanswm arwynebedd Cymru. Mae Blaenau Gwent yn cydffinio ag ardaloedd awdurdodau unedol Sir Fynwy a Thorfaen i'r dwyrain, Caerffili i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd. Ei brif drefi yw Abertyleri, Brynmawr, Glynebwy a Thredegar.

2 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), mae gan Flaenau Gwent boblogaeth o 68,630 sy'n byw mewn tua 30,619 o gartrefi. O ran maint y boblogaeth, dyma'r awdurdod lleol lleiaf ond un yng Nghymru. Mae ychydig dros 18 y cant o'r boblogaeth yn 16 oed neu'n iau. Mae cyfran debyg ond gynyddol yn 56 oed neu'n hŷn. Dengys rhagamcanion y bydd poblogaeth Blaenau Gwent, sydd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cynyddu ychydig dros bedwar y cant i 71,399 erbyn 2033.

3 Mae'r ardal yn cyflwyno llawer o heriau sylweddol i'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae anghenion cymunedol cymhleth yn creu lefelau uchel o alw am wasanaethau. Mae lefelau amddifadedd cymdeithasol ac economaidd a salwch ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Y disgwyliad oes i fenywod ym Mlaenau Gwent yw 78.8 oed, sef yr isaf yng Nghymru. Cyfartaledd Cymru yw 81.4 oed. Y disgwyliad oes i ddynion yw 75.3 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 77.0 oed, a'r isaf ond un yng Nghymru.

4 Mae tranc y diwydiannau dur a glo traddodiadol yn golygu mai yn y fwrdeistref sirol hon y ceir y lefelau uchaf o ddiweithdra yng Nghymru, sef 35.2 y cant. Mae nifer y bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith wedi dyblu dros y pum mlynedd diwethaf. Yr enillion wythnosol cyfartalog ym Mlaenau Gwent yn 2009 oedd £439, y pedwerydd isaf yng Nghymru. Mae gan bron i draean y disgyblion rhwng 5 a 15 oed ym Mlaenau Gwent yr hawl i brydau ysgol am ddim, y gyfran uchaf yng Nghymru[1].

ardal ddaearyddol
109 $km^2$
/////////////

poblogaeth
68,630
/////////////

18% yn <16 oed
18% yn >56 oed
/////////////

1 I gael rhagor o wybodaeth am yr ardal, gweler Atodiad 2.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cael ei reoli'n dda?

5 Ym mis Hydref llynedd, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Adroddiad Asesu Corfforaethol yn cyflwyno sylwadau ar y ffordd y caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os ydych am ddarllen yr Adroddiad Asesu Corfforaethol cyfan mae ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

6 Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad fel a ganlyn: 'gall y Cyngor ddangos ei fod wedi cyflawni rhai gwelliannau angenrheidiol, ond hyd yma nid yw wedi datblygu'r dull gweithredu strategol cydgysylltiedig sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a wynebir ganddo'.

7 Hynny yw, er bod rhai gwasanaethau yn gwella, mae angen i'r Cyngor fod yn fwy systemataidd wrth ddewis ffocws ei ymdrechion er mwyn gwneud gwelliannau yn y meysydd pwysicaf ac asesu sut y bydd yn ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaethau a'r gostyngiadau mewn cyllid yn y dyfodol.

8 Gwnaethom amlygu llwyddiant y Cyngor wrth ddenu cyllid i'r ardal i gefnogi gweithgarwch adfywio a'r ffaith ei fod wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r ffordd y mae'n rheoli ei staff ac yn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio ei wasanaethau. Canfuwyd, er bod rhai gwasanaethau yn rheoli eu perfformiad yn dda, bod y Cyngor yn cydnabod bod rhannau eraill o'r Cyngor lle y caiff gwelliannau eu llesteirio gan ddulliau gweithredu traddodiadol y mae angen eu newid. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau ac yn eu hadolygu ac mae'n sicrhau bod pobl yn atebol am y penderfyniadau hynny ond mae angen iddo sicrhau ei fod yn gwneud hyn yn fwy cyson.

9 Ers i ni gyhoeddi adroddiad yr Asesiad Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi cyflogi ymgynghorwyr allanol i'w helpu i wella'r ffordd y mae'n cynllunio ei gyllid a hefyd sut y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei asedau. Mae wedi parhau i wella'r ffordd y mae'n casglu gwybodaeth gan ddinasyddion am yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac mae wedi gwneud rhai penderfyniadau arwyddocaol o natur wleidyddol sensitif a fydd yn ei helpu i wneud gwelliannau yn y dyfodol mewn perthynas â rhai o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys trosglwyddo'r stoc dai, ad-drefnu ysgolion, cau cartrefi gofal, diffodd rhai goleuadau stryd penodol a chasglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos.

10 Mae'r pwysau yn cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

11 Daw'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario yn bennaf gan y llywodraeth ganolog, sy'n darparu arian refeniw a chyfalaf. Mae arian refeniw yn talu am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a'r staff a gyflogir ganddo. Defnyddir arian cyfalaf i dalu am seilwaith fel adeiladau a ffyrdd ac i brynu darnau mawr o offer. Yn ogystal â'r arian y mae'r Cyngor yn ei gael gan y llywodraeth ganolog, mae'r Cyngor yn codi arian drwy'r dreth gyngor ac o ffioedd a thaliadau. Gall hefyd gynhyrchu rhywfaint o incwm drwy werthu tir ac adeiladau y mae'n berchen arnynt ac nad oes eu hangen mwyach.

12 Mae'n rhaid i'r Cyngor bennu cyllideb refeniw i'w rheoli o fewn yr arian sydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Wedyn, mae'n monitro ei wariant gwirioneddol yn erbyn hyn. Mae gan y Cyngor hanes da o reoli o fewn y cyllidebau a bennir ganddo. Gan mai poblogaeth gymharol fach a wasanaethir ganddo, mae'r cyfanswm a werir gan y Cyngor ar ddarparu gwasanaethau yn isel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae galw uchel am wasanaethau yn golygu fod gwariant y Cyngor fesul pen o'r boblogaeth yn gyson ymhlith yr uchaf o bob cyngor yng Nghymru. Yn 2009-10, gwariant refeniw'r Cyngor oedd £133.290 miliwn ac mae'n bwriadu gwario £134,408 miliwn yn 2010-11. Addysg sy'n cyfrif am y gyfran uchaf o'r gwariant hwn, sef tua 41 y cant, ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrif am 25 y cant.

13 Dim ond £23.1 miliwn, neu 18 y cant, o'r gwariant refeniw a ariennir gan y dreth gyngor, y gyfran isaf ond un o blith cynghorau yng Nghymru. Mae ôl-ddyledion treth gyngor nas talwyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ddiwedd mis Mawrth 2010, roedd £3.503 miliwn yn ddyledus i'r Cyngor mewn treth gyngor nas talwyd, gan ei roi yn y 13eg safle o blith y 22 cyngor yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli £113 fesul annedd drethadwy, y lefel uchaf yng Nghymru. Perfformiad y Cyngor o ran casglu ardrethi annomestig yw'r perfformiad gwaethaf o blith cynghorau Cymru hefyd.

14 Mae'r Cyngor yn cael y lefel uchaf o arian gan y llywodraeth ganolog fesul pen o'r boblogaeth o blith holl gynghorau Cymru[2]. Bu hefyd yn llwyddiannus iawn wrth ddenu cyllid gan y llywodraeth ganolog a chan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer prosiectau adeiladu a thrafnidiaeth sylweddol wedi'u hanelu at adfywio'r ardal. Mae'r Cyngor yn cael tua £5.5 miliwn ar gyfer ei raglen cyfalaf flynyddol, ond mae wedi denu arian ychwanegol o rhwng £50 miliwn ac £80 miliwn bob blwyddyn. Roedd gwariant cyfalaf y Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2009-10 yn £39.3 miliwn. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ffynonellau ariannol eraill hefyd, gan gynnwys defnyddio trefniadau benthyca i gefnogi mentrau yr oedd angen buddsoddiad cychwynnol arnynt er mwyn gwireddu arbedion yn ddiweddarach. Mae hefyd wedi trosglwyddo ei stoc dai i'r sector preifat er mwyn gallu cael gafael ar y lefelau o fuddsoddiad sydd eu hangen i wella ansawdd tai.

15 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn cael tua £1.874 miliwn (1.7 y cant) yn llai o arian refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £3.947 miliwn (3.58 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos mwy o leihad mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

16 Disgwylir i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol hefyd. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 (sef toriad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

2 Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad/Stats Wales

3 Ystyr termau real yw y caiff effaith chwyddiant ei hystyried. Mae llawer o wahanol ddulliau o fesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres datchwyddo CMC y Trysorlys.

17 Bydd effaith gronnol y gostyngiadau hyn, ynghyd â ffactorau eraill sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau, megis proffil oedran uwch y boblogaeth ac effaith gymdeithasol y dirwasgiad, yn rhoi pwysau sylweddol ar gynghorau. Os caiff lefelau'r arian canolog a gaiff cynghorau eu lleihau'n sylweddol, gallai hynny effeithio'n ddifrifol iawn ar Flaenau Gwent. Mae'r Cyngor yn ystyried mentrau i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i ddibyniaeth ar gyllid allanol ac mae wedi nodi egwyddorion allweddol a chamau wedi'u hanelu at leihau effaith gostyngiadau ariannol ar staff a gwasanaethau rheng flaen.

18 Yn ystod y tair blynedd o 2005-06 i 2008-09, nododd y Cyngor ei fod wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £5.86 miliwn yn ogystal ag arbedion eraill o fewn cyllidebau. Mae'r Cyngor wedi nodi fod angen iddo wneud arbedion o bron £10.5 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n bwriadu gwneud hyn drwy leihau costau cyflenwadau a thrafnidiaeth a hefyd drwy leihau nifer ei staff, er ei fod yn gobeithio osgoi diswyddiadau gorfodol. Ar gyfer 2009-10, nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni gwerth £1.808 miliwn o arbedion drwy well trefniadau caffael, symleiddio swyddogaethau cymorth, gwneud gwell defnydd o staff a moderneiddio gwasanaethau. Yn ein Hadroddiad Asesu Corfforaethol, dywedwyd wrth y Cyngor fod angen iddo ddatblygu gwell cynlluniau sy'n cydweithio i wneud gwelliannau i ddinasyddion gan sicrhau arbedion sydd wedi'u hategu gan y niferoedd priodol o staff a sgiliau i newid a moderneiddio gwasanaethau.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

## Cynllunio i wella'r hyn sydd bwysicaf

19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i sicrhau y gall cynghorau bob amser ddangos bod yr hyn a wnânt yn adlewyrchiad amlwg o'r hyn sydd bwysicaf i bobl leol a'i fod yn arwain at wella bywydau pobl. Er mwyn sicrhau bod cynghorau yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i'r pethau pwysicaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau a sut y byddant yn mynd ati i wneud hynny. Mae hefyd yn ofynnol i gynghorau bennu 'amcanion gwella' sy'n ategu'r prif flaenoriaethau maent yn anelu at eu gwella bob blwyddyn, ac wedyn i gyflwyno adroddiad ar eu cyflawniadau. Nodwyd 10 mater allweddol y mae'r Cyngor wedi penderfynu y mae angen canolbwyntio ar eu gwella fel amcanion gwella ar gyfer 2010-11. Mae'r Cyngor wedi penderfynu:

- cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynghylch cynigion ar gyfer addysg ôl-16 ar safle'r gwaith dur er mwyn cyfrannu at drawsnewid addysg a dysgu ym Mlaenau Gwent;
- cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16, neu sydd mewn perygl o ymuno â'r categori hwn;
- adolygu a gwella prosesau recriwtio a chadw gofalwyr maeth er mwyn gwella'r dewis o leoliadau sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal;
- hyrwyddo a galluogi annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau drwy ddarparu tai gofal ychwanegol a moderneiddio gofal yn y cartref;
- datblygu gwasanaethau gwastraff sy'n dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac sy'n gwella cyfraddau ailgylchu a chompostio ymhellach;
- datblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n gwella glendid y fwrdeistref sirol;
- cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol;
- datblygu a gwella ymhellach sianelau mynediad i wasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion;
- rhoi cefnogaeth a chymorth uniongyrchol i fusnesau lleol er mwyn cynnal lefelau buddsoddi ac adfywio economaidd;
- cynnal a gwella canol trefi drwy waith adfywio ffisegol a threfniadau rheoli canol trefi[4].

20 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn drosiannol hon, mabwysiadodd y Cyngor ei amcanion gwella ym mis Gorffennaf ac ni chyhoeddodd yr amcanion hynny na sicrhau eu bod ar gael yn hawdd i ddinasyddion bryd hynny. Maent bellach wedi'u cynnwys yn adolygiad y Cyngor o Gynllun Gwella Corfforaethol 2008-2012, a gyhoeddwyd ym mis Hydref ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn adeiladau cyhoeddus. Bydd y Cynllun Gwella Corfforaethol hefyd ar gael ar ffurf gryno i'w ddosbarthu ym mis Tachwedd. Y flwyddyn nesaf, mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyhoeddi'n gynharach.

21 Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno â'r sefydliadau partner sy'n gwasanaethu'r ardal, megis iechyd a'r heddlu, sut y byddant yn cydweithio mewn perthynas â blaenoriaethau Cymru gyfan Llywodraeth y Cynulliad a pha wahaniaethau y byddant yn eu gwneud i bobl yn ystod y flwyddyn nesaf. Nodir y wybodaeth hon, gan gynnwys amcanion gwella'r Cyngor, yn y Cynllun Gwella Corfforaethol o dan bedair thema strategol eang sy'n ategu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor o sicrhau bod Blaenau Gwent yn 'lle gwell i fyw a gweithio' ac sy'n adlewyrchu'r hyn a ddywedodd dinasyddion wrth y Cyngor oedd bwysicaf iddynt.

4 Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion.

22 Edrychwyd hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl a sefydliadau lleol sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn ymdrech i ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau er mwyn llywio Strategaeth Gymunedol Blaenau Gwent, a ddatblygwyd ar y cyd gan y Cyngor a sefydliadau partner ac sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd yn ddiweddar ac a gafodd gefnogaeth gref gan y partneriaid. Mae blaenoriaethau ac amcanion gwella'r Cyngor yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Strategaeth Gymunedol ac felly'n adlewyrchu anghenion ac uchelgeisiau lleol yn glir. Maent hefyd yn cysylltu'n glir â chynlluniau eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu cynhyrchu gyda'i bartneriaid, sy'n ymdrin â meysydd pwysig fel iechyd, gofal cymdeithasol a lles, plant a phobl ifanc a hefyd diogelwch cymunedol. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi dylanwadu ar yr amcanion gwella. Fodd bynnag, nid yw'n dangos sut y cafodd rhanddeiliaid eraill a all fod a diddordeb eu cynnwys, er enghraifft, busnesau lleol mewn perthynas â gwella canol trefi. Er bod manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth wedi'u cynnwys, nid yw'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn rhoi gwybod i bobl sut y gallant gymryd rhan a lleisio eu barn yn y dyfodol. Dylai'r Cyngor gynnwys y wybodaeth hon yn y crynodeb o'r Cynllun Gwella Corfforaethol y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd.

## Dangos sut mae pobl yn cael budd o'r hyn a wna'r Cyngor

23 Dylai'r Cyngor ddangos sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Mae'r Cyngor wedi nodi sut mae ei amcanion gwella yn cysylltu â'i themâu strategol ac wedi cynnwys disgrifiad o lwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau sydd gan y Cyngor ar waith hyd yma bob amser yn dangos yn glir pa un a fydd unrhyw un yn well eu byd os bydd yn cyflawni ei amcanion gwella. Mae hyn oherwydd bod mesurau weithiau yn ymwneud â chwblhau cam gweithredu yn hytrach na chyflawni canlyniad a hefyd am nad oes gwybodaeth am lefel perfformiad bresennol y Cyngor neu'r targed gwella bob amser ar gael.

24 Gwnaethom adolygu'r mesurau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio i ddangos a yw ei amcanion gwella yn llwyddiannus, gan edrych hefyd ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi dangos tystiolaeth o welliant yn y gorffennol. Ar y cyfan, yn gyffredin â llawer o gynghorau eraill, mae mesurau perfformiad fel arfer yn seiliedig ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) o berfformiad nad ydynt bob amser yn dangos a yw pobl leol yn cael gwasanaethau da neu a ydynt yn well eu byd. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhai dangosyddion lleol, ac yn y gorffennol, ni chysylltwyd targedau gwella yn gyson â blaenoriaethau'r Strategaeth Gymunedol neu'r Cynllun Gwella Corfforaethol ac nid oeddent bob amser yn heriol. O ganlyniad, prin yw'r wybodaeth sy'n nodi a yw'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud o fudd i unrhyw un; profiadau defnyddwyr o dderbyn gwasanaethau a pha un a yw pobl yn fodlon; er bod mwy o'r math hwn o wybodaeth ar gael ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu gwell mesurau sydd wedi'u cysylltu'n amlwg â chanlyniadau yn ogystal â gwybodaeth gadarn am gostau uned.

25 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithredu â phartneriaid lleol ym Mlaenau Gwent a hefyd â chynghorau cyfagos er mwyn gwella profiadau pobl o wasanaethau a hefyd i wneud arbedion. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymgynghori'n eang ar flaenoriaethau lleol ac wedi datblygu Strategaeth Gymunedol ar y cyd sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud gyda'i gilydd. Fodd bynnag, gall trefniadau cydweithredu gymryd amser hir a chryn ymdrech i'w rhoi ar waith, ac ni allant bob amser ddangos eu bod yn arwain at y buddiannau bwriadedig. Er y gall y Cyngor a'i bartneriaid nodi enghreifftiau o drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol, mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid wneud rhagor o waith i ddangos yn gyson sut y mae partneriaethau o fudd i'r cyhoedd a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.

26 Er bod tystiolaeth o angen yn sail i rai o strategaethau'r Cyngor, ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno o ran pa un a all y galw gan bobl leol am y gwasanaethau a ddarperir ganddo newid o ganlyniad i'r dirwasgiad, a sut y gall unrhyw newidiadau effeithio ar ei gynlluniau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei allu i ragweld galw, pennu targedau, monitro cynnydd, yn ogystal â mesur llwyddiant a chyflwyno adroddiadau arno. Gall roi'r dull hwn ar waith wrth reoli gwelliant yn ehangach, nid dim ond mewn perthynas â'i amcanion gwella. Mae'r Cyngor yn gwella sut mae'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth i'w helpu i sicrhau bod penderfyniadau pwysig yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddarperir eisoes, pa mor dda y mae'n gweithio, faint mae'n ei gostio a beth arall sydd ei angen. Mae'r Cyngor wedi dechrau gwneud defnydd effeithiol o system rheoli perfformiad i Gymru gyfan, Ffynnon[5], i helpu i reoli a dangos gwelliannau i bobl.

27 Mae'n bwysig nid yn unig bod gan y Cyngor wybodaeth am y pethau priodol, ond hefyd bod y wybodaeth honno'n gywir. Gwnaethom archwilio systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei Ddangosyddion Perfformiad (DP) allweddol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn 2010. Canfuwyd bod pob un o'r 38 Dangosydd Strategol Cenedlaethol, y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno adroddiad ar berfformiad yn eu herbyn, yn sylweddol gywir, er y bu'n rhaid cywiro 12 dangosydd am eu bod yn cynnwys rhai gwallau. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o gyflwyniad tystiolaeth y Cyngor i Lywodraeth y Cynulliad i ategu'r ffaith ei fod wedi cyflawni targedau ei gytundeb gwella mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Daethom i'r casgliad mai dim ond rhai o'r targedau a gyflawnwyd gan y Cyngor, mai dim ond mewn perthynas â rhai o'r camau gweithredu y gwnaeth gynnydd ac nad oedd canlyniad y gweithgarwch mewn llawer o'r cytundebau gwella yn amlwg. Serch hynny, cafodd y Cyngor wybod y bydd yn derbyn y grant llawn gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd effeithiol o Ffynnon i ddangos tystiolaeth o welliant ond nid oedd nifer fach o dargedau bob amser yn heriol ac roedd angen i beth tystiolaeth o'r DPau cenedlaethol gael ei hategu gan ddangosyddion lleol. Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i wella cywirdeb ei wybodaeth am berfformiad a chadernid ei dystiolaeth o welliant.

5 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid.

28 Yn olaf, gwnaethom werthuso pa mor dda y mae cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Yn gyffredinol, gan nad mentrau newydd yw amcanion gwella'r Cyngor, disgwylir iddynt gael eu hariannu a'u rheoli drwy gyllidebau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes, wedi'u hategu gan fuddsoddiad i arbed cyllideb o £1 filiwn. Eithriad i hyn yw'r amcan i gynnal a gwella'r seilwaith priffyrdd lle mae angen arian ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gwybod eto a oes arian ar gael. Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, bod angen iddo fod yn fwy hyderus na fydd toriadau ariannol gan y llywodraeth yn ei atal rhag gwneud y cynnydd y mae am ei wneud yn ei feysydd blaenoriaeth. Felly, mae'n gweithio i wella ei waith cynllunio ariannol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn adolygu cynlluniau'r Cyngor wrth iddynt ddatblygu, byddwn yn cyflwyno sylwadau o ran pa un a fyddant yn cefnogi ei ymdrechion i wneud yn well a byddwn hefyd yn ystyried a yw'r Cyngor mewn gwirionedd wedi gwneud y gwelliannau a fwriadwyd ganddo ar gyfer pobl leol.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gwasanaethu pobl yn dda?

29 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd ym Mlaenau Gwent. Credwn, gyda'i gilydd, eu bod yn cwmpasu'r prif bethau y mae pob cyngor yn eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

30 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar ba mor dda mae'r Cyngor wedi dewis ac wedi datblygu ei amcanion gwella mewn perthynas â'r agweddau hyn. Rydym yn cydnabod bod hon yn flwyddyn drawsnewid wrth i'r Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru roi gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 ar waith yn llawn. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei ymagwedd tuag at amcanion gwella a chroesawodd adborth o ran sut y gall eu gwella ar gyfer 2011.

31 Nid yw'r adroddiad hwn yn anelu at roi darlun llawn na chytbwys o berfformiad y Cyngor ar draws yr amrywiaeth o swyddogaethau y mae'n ymgymryd â hwy a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar feysydd penodol y mae'r Cyngor wedi nodi ei fod am eu gwella, pam ei fod wedi dewis eu gwella, sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hynny a sut y bydd yn rhoi cyfrif am yr hyn a gyflawnir ganddo.

32 Mae'r dangosyddion strategol cenedlaethol (DSCau) y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno adroddiad arnynt yn tueddu i ganolbwyntio ar faint o weithgarwch a geir yn hytrach nag ansawdd y canlyniadau. Felly, nid ydynt o reidrwydd yn sail dda ar gyfer dangos bod pobl leol yn well eu byd o ganlyniad i'r hyn a wna'r Cyngor, neu ar gyfer cymharu pa mor dda y mae gwahanol gynghorau yn gwasanaethu pobl. Fodd bynnag, dyma'r brif ffynhonnell o ddata cymharol sydd ar gael i'r cyhoedd ar berfformiad cynghorau yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau gyflawni gwelliant parhaus yn erbyn pob un o'r dangosyddion. Mae gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus yn golygu y bydd angen i bob cyngor wneud penderfyniadau clir am flaenoriaethau, a allai arwain at berfformiad is mewn rhai meysydd. Yn ein Hasesiad Corfforaethol, nodwyd gennym fod angen i'r Cyngor nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer meysydd nad ydynt yn feysydd blaenoriaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn, i sicrhau y cynhelir safonau gwasanaeth derbyniol.

33 Ar hyn o bryd, mae canlyniadau'r Cyngor fel y'u mesurir yn ôl DSCau, yn amrywiol ac nid ydynt yn dangos unrhyw duedd glir tuag at welliant, boed hynny'n welliant cyffredinol neu o ran perfformiad cymharol o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Serch hynny, perfformiodd rhai gwasanaethau yn dda yn 2009-10. Mae'r rhain yn cynnwys safonau masnach, tai a gwasanaethau plant. Roedd gwasanaethau cymdeithasol i oedolion hefyd yn weddol ar y cyfan gyda rhai meysydd da o welliant megis ymatebolrwydd gwasanaethau. Gwellodd gwasanaethau gwastraff ond roedd y gwelliant hwnnw o sail isel. Rhoddodd gwasanaethau eraill megis cynllunio, hamdden, ffyrdd a thrafnidiaeth ddarlun cymysg. Roedd canlyniadau addysg yn wael. Dangosodd chwe dangosydd addysg welliant o gymharu â chynghorau eraill ond gwaethygodd wyth ac ni chafwyd unrhyw newid mewn perthynas â phump, sef y perfformiad gwaethaf o blith y 22 o gynghorau. Nid yw'r Cyngor wedi cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn erbyn pob un o'r DSCau yn y Cynllun Gwella Corfforaethol ond mae wedi cynnwys cyswllt i'w wefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu pobl mewn angen?

34 Oherwydd lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, mae Blaenau Gwent yn ardal lle y mae gan lawer o bobl anghenion sylweddol o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am gymorth gan y Cyngor a'i bartneriaid lleol. Mae'r partneriaid hyn yn cydweithredu i nodi anghenion ac i gynllunio a darparu gwasanaethau a chydweithio i ddatblygu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y cyfeirir ati'n lleol fel Dyfodol Iachach. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar fersiwn newydd o'r strategaeth hon ar hyn o bryd ac mae wedi helpu i lywio'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer yr ardal yn ogystal â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi plant, y Cynllun Gwella Corfforaethol a'r amcanion gwella.

35 Mae cynghorau yn gweinyddu'r budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Yn gyffredinol, mae taliadau budd-daliadau anghywir yn digwydd pan fydd y cyngor naill ai wedi talu gormod o fudd-dal neu pan na fydd yr hawliwr wedi gwneud cais priodol. Rhaid i gynghorau sicrhau y gwneir cyn lleied â phosibl o ordaliadau tra'n parhau hefyd i hyrwyddo proses gadarn ond sensitif ar gyfer adennill dyledion. Yn 2008, nododd DWP welliannau sylweddol yn safon gyffredinol gweinyddu'r broses o dalu budd-daliadau, ond nododd fod cynnydd wedi bod o ran nifer yr achosion o ordalu budd-daliadau, yn deillio'n benodol o wallau gan gwsmeriaid. Yn ôl ystadegau DWP, yn 2008-09, nododd y Cyngor fod £1.126 miliwn, sef 4.2 y cant, o'r budd-daliadau a dalwyd wedi'u gordalu ac adenillodd 79 y cant o'r ddyled yn ystod y flwyddyn. Cyfartaleddau Cymru oedd 4.9 y cant a 65 y cant.

36 Asesodd Swyddfa Archwilio Cymru systemau'r Cyngor ar gyfer atal ac adennill gordaliadau. Daethom i'r casgliad, yn 2008-09, oherwydd trefniadau ataliol boddhaol, bod y Cyngor wedi gordalu £440,000 (1.8 y cant) yn llai o fudd-daliadau na'r flwyddyn flaenorol a'i fod yn adennill 18 y cant yn fwy o 'ddyled yn ystod y flwyddyn'. Argymhellwn y dylai'r Cyngor: gyflwyno gwiriadau cywirdeb cyn gwneud unrhyw daliadau er mwyn sicrhau bod y ceisydd yn cael y budd-dal cywir ar yr adeg gywir; datblygu amrywiaeth llawn o ddangosyddion lleol a thargedau unigol i asesu a rheoli perfformiad; ac ehangu'r defnydd o achosion llys wedi'u symleiddio ac asiantaethau casglu dyledion i gasglu'r dyledion llai.

37 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydgysylltu gwaith asesu mewn cynghorau â'n gwaith ym maes iechyd. Rydym yn ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (ABHB), sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd ar draws ardal sy'n cynnwys Blaenau Gwent a'r cynghorau cyfagos. Mae'r cynghorau, y bwrdd iechyd a phartneriaid lleol eraill yn cydweithio i gydgysylltu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n agored i niwed. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gorff cymharol newydd a ddisodlodd y strwythur blaenorol a oedd yn cynnwys pum bwrdd iechyd lleol llai ac ymddiriedolaeth. Mae'r cydberthnasau rhwng y bwrdd iechyd a'r pum cyngor y mae'n eu cwmpasu yn esblygu wrth i strwythurau a swyddi newydd o fewn ABHB ymsefydlu ac wrth i'r trefniadau ar gyfer cydweithio barhau i ddatblygu. Mae ein gwaith yn mynd rhagddo a chyflwynir adroddiad arno yn 2011.

38 Yn ddiweddar, enillodd y Cyngor ynghyd â naw cyngor partner yn ne-ddwyrain Cymru un o wobrau rhagoriaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Sefydlwyd Rhaglen Comisiynu Plant Prosiect Gwella ar y Cyd De-ddwyrain Cymru (SEWIC) i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sicrhau gwerth am arian gwell a chynyddu'r dewis o leoliadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Sefydlwyd Uned Gomisiynu Ranbarthol a noda'r uned honno ei bod wedi arbed dros £500,000 o ran costau y llwyddwyd i'w hosgoi.

39 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

40 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

41 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a'r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

42 Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ac uwch reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu arweinyddiaeth effeithiol yn ystod y flwyddyn. Ceir atebolrwydd clir ar bob lefel a cheir diwylliant agored o ddysgu sy'n cynnwys staff wrth helpu i lywio'r broses o foderneiddio gwasanaethau. Yn dilyn ymadawiad y cyfarwyddwr blaenorol a oedd wedi bod yn ei swydd ers cryn amser, cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer 2010-11 lle nad oedd y cyfarwyddwr newydd mwyach yn gyfrifol am addysg na gwasanaethau hamdden. Mae'r gyfarwyddiaeth wedi cael cefnogaeth gorfforaethol a chefnogaeth wleidyddol drawsbleidiol barhaus. Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion drefniadau effeithiol ar waith i glywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, er enghraifft wrth roi cyngor i'r Pwyllgor Craffu. Fodd bynnag, erys craffu yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau her a ffocws effeithiol ar sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae trefniadau partneriaeth i gynnal a datblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol hefyd yn faes y mae angen i'r cyfarwyddwr newydd a'r uwch dîm rheoli roi sylw pellach iddo.

43 Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio ei wasanaethau gyda chefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol ac mae wrthi'n datblygu proses o ddarparu gwasanaethau ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys timau iechyd meddwl ar y cyd, ac mae hefyd yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos. Mae'r cydberthnasau rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr annibynnol yn gwella. Caiff blaenoriaethau'r gwasanaeth oedolion a'r gwasanaeth plant eu cynnwys o fewn cynlluniau a byrddau partneriaeth gwasanaeth strategol ymhob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys yr agendâu diogelu ar gyfer plant ac oedolion. Mae gan y Cyngor strategaethau comisiynu effeithiol sy'n llywio'r agenda foderneiddio. Fodd bynnag, bu anawsterau yn ymwneud â chapasiti o ran arferion comisiynu a chontractio. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mwy o swyddi yn ddiweddar i sicrhau ansawdd gwasanaethau a chysoni gwasanaethau a gomisiynir yn well a sicrhau eu bod yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i'r Cyngor. Mae systemau rheoli ariannol effeithiol ar waith ar draws y gwasanaethau cymdeithasol gyda rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio ar y pwysau o ran cost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau

anableddau dysgu i oedolion, gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau mabwysiadu. Mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol yn y cynllun ariannol tymor canolig.

44 Mae gan y Cyngor weithlu cymharol sefydlog ym maes gwasanaethau oedolion a phlant gyda chymysgedd o staff profiadol a staff newydd gymhwyso. Mae morâl staff yn dda. Mae gan y Cyngor raglen sefydlu well ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff, gyda llwythi achosion wedi'u diogelu ym maes gwasanaethau plant. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant aml-asiantaeth fel rhan o'i Bartneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Bu cynnydd yn nifer y swyddi gwaith cymdeithasol ym maes gwasanaethau plant er mwyn mynd i'r afael â phroblemau capasiti yn y timau asesu a rheoli gofal ac mae'r swyddi ychwanegol hyn wedi gwneud gwahaniaeth amlwg o ran trefniadau gwell ar gyfer cynllunio gofal a darparu gwasanaethau. Mae'r trefniadau ar gyfer asesu, rheoli gofal, goruchwylio ac adolygu wedi'u datblygu'n dda ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac mae systemau gwybodaeth rheoli perfformiad yn ategu camau rheoli effeithiol. Mae angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd ac ansawdd ymyriadau a sut mae hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae systemau TG yn gwella ond mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach ar y rheng flaen o ran gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau a chysondeb wrth gofnodi gwybodaeth allweddol.

45 Mae gan y Cyngor drefniadau cyswllt a mynediad effeithiol ar waith ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau plant ac oedolion. Mae wedi sefydlu un ganolfan gyswllt ar gyfer plant ac oedolion, sef 'Cysylltwch â Blaenau Gwent' (C2BG) lle ceir staff arbenigol sy'n ymateb i ymholiadau gwasanaethau cymdeithasol. Er y caiff defnyddwyr a gofalwyr sy'n oedolion eu cynnwys yn effeithiol wrth gynllunio eu pecynnau gwasanaeth, dylai'r Cyngor atgyfnerthu'r ffordd y mae lleisiau plant yn helpu i lywio'r gwasanaethau a ddarperir. Dylai hefyd sicrhau y caiff effaith ac effeithiolrwydd datblygiadau gwasanaeth eu gwerthuso'n drylwyr.

46 Mae'r Cyngor wedi datblygu dull strategol effeithiol ar gyfer cyflawni gwell canlyniadau i oedolion a phobl hŷn o fewn eu cymunedau lleol. Mae gwasanaethau mewnol i oedolion o ansawdd da ac yn cefnogi annibyniaeth drwy becynnau cymorth yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn helpu mwy o oedolion yn y gymuned a llai o oedolion mewn gofal preswyl o ganlyniad i hynny. Mae'r gwasanaethau amddiffyn oedolion yn effeithiol wrth nodi pryderon amddiffyn oedolion, cymryd camau cyflym a phriodol a gweithio wedyn i wella amgylchiadau unigolion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwell cysondeb o ran ei ffordd o reoli prosesau ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae cymorth i ofalwyr oedolion, ac i ofalwyr ifanc, er mwyn sicrhau gwell cynhwysiant cymdeithasol yn y gymuned hefyd yn faes i'w ddatblygu ymhellach.

47 Mae'r Cyngor wedi ymdrin â mwy o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys atgyfeiriadau amddiffyn plant. Mae wedi rheoli'r galw cynyddol hwn yn dda ac mae'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau plant sy'n canolbwyntio ar roi dull gweithredu ar waith sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n cynllunio ar gyfer parhad. Mae'r gwasanaethau maethu a mabwysiadu yn gweithio'n dda, ond dylai'r Cyngor

ddatblygu darpariaeth leol well ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a dewis ehangach o leoliadau mabwysiadu. Mae ansawdd y penderfyniadau a wneir yn gadarn ac yn seiliedig ar risg. Yn ystod 2009-10, roedd rheolwr wedi gwneud penderfyniad ar bob atgyfeiriad i'r gwasanaethau plant o fewn 24 awr. Mae gan bob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant weithiwr cymdeithasol penodedig a cheir tystiolaeth o welliant parhaus o ran prosesau diogelu.

48 Mae'r trefniadau diogelu plant yn dda. Mae'r trefniadau aml-asiantaeth ar gyfer amddiffyn plant sy'n agored i niwed ac a allai fod mewn perygl o gael niwed yn dda. Mae'r Cyngor yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, gan gynnwys drwy wasanaeth gofal maeth wedi'i gadw sy'n darparu gwyliau byr i blant. Mae'r trefniadau trosiannol ar gyfer pobl ifanc yn faes i'w ddatblygu. Mae'r Cyngor yn sefydlu gwasanaethau trosiannol newydd, gan gynnwys trefniadau partneriaeth, ar gyfer plant ifanc anabl a thrwy ei dîm 16+ newydd ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y gwasanaethau hyn eu gwerthuso.

## Amcan gwella - Adolygu a gwella prosesau recriwtio a chadw gofalwyr maeth er mwyn gwella'r dewis o leoliadau sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal

49 Mae gwneud gwelliannau i ofal maeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i blant sy'n agored i niwed yn amcan gwerthfawr i'r Cyngor. Roedd adroddiad yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn dilyn marwolaeth Victoria Climbié yn Lloegr yn cynnwys argymhelliad y dylai prif weithredwyr ac aelodau arweiniol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau am wasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu cynnwys yn benodol yn rhestr eu hawdurdod o flaenoriaethau a'i gynlluniau gweithredol.

50 Yn gyffredinol, mae cynghorau Cymru yn profi cynnydd yn nifer y plant y mae angen gofal arnynt. Mae lefelau'r galw am wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn gymharol uchel ym Mlaenau Gwent ond hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi profi'r un cynnydd diweddar â chynghorau eraill yng Nghymru ac mewn gwirionedd, bu gostyngiad bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, o 130 yn 2007-08 i 119 yn 2009-10. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y plant y mae'r Cyngor yn llwyddo i'w helpu i aros gyda'u teuluoedd wedi cynyddu o 347 i 487. Mae hyn yn cynrychioli canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

51 Yn ddiweddar, cynhaliodd AGGCC adolygiadau o wasanaethau mabwysiadu a maethu'r Cyngor. Nodwyd bod gan wasanaethau'r Cyngor ffocws cadarnhaol ar wneud gwelliannau i blant a theuluoedd, a lle y bo'n briodol, sicrhau cartref parhaol i blant. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i recriwtio gweithwyr cymdeithasol er bod prinder cenedlaethol ohonynt. O ganlyniad, yn 2009-10, roedd gan 99.8 y cant o'r achosion agored o blant sy'n derbyn gofal weithiwr cymdeithasol penodedig. Roedd y Cyngor felly yn y degfed safle o blith y 22 awdurdod ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 92.3 y cant. Caiff y gwasanaethau eu rheoli'n dda ac mae ganddynt staff â sgiliau priodol er nad oedd arfer da gan rai aelodau o staff bob amser yn cael ei ddilyn gan eraill. Mae'r gwasanaethau yn ymatebol, caiff asesiadau eu cynnal yn brydlon a chaiff penderfyniadau eu gwneud yn gyflym. Yn 2009-10, cofnododd y Cyngor gyfradd o 100 y cant ar gyfer y ganran o leoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod ei berfformiad ymhlith y gorau o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

52 Canfu AGGCC fod y gwasanaethau maethu a mabwysiadu wedi'u datblygu'n dda ond bod angen mwy o ddewis o ran lleoliadau a bod angen datblygu strategaeth recriwtio gyfredol ar gyfer gofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol. Yn 2009-10, aeth 10.9 y cant o'r plant sy'n derbyn gofal i dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. Cyfartaledd Cymru oedd 10.2 y cant. Byddai gwell prosesau recriwtio a chadw yn helpu'r Cyngor i wella parhad y gofal a roddir i blant sy'n agored i niwed. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i wneud hyn a bydd y ffaith bod ganddynt amcan gwella i wella prosesau recriwtio a chadw yn eu helpu i ganolbwyntio ar wireddu'r nod hwn.

53 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi darparu llinell sylfaen o berfformiad presennol y gellid asesu gwelliant yn ei erbyn. Nid yw wedi pennu targedau ar gyfer gwella prosesau recriwtio a chadw nac wedi nodi dyddiadau terfyn ar gyfer cyflawni gwelliant. Felly, ni allwn fesur lefel uchelgais y Cyngor yn hyn o beth. Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ategol sy'n awgrymu ei fod yn awyddus i wella lefelau cymwysterau gofalwyr maeth ond nid yw wedi nodi sut y bydd gofalwyr cymwysedig o fudd i blant. Er nad yw'n afresymol disgwyl y bydd yr amcan gwella o fudd i blant, nid yw'r Cyngor wedi nodi sut y byddant yn cael budd neu sut y gall y Cyngor ddangos eu bod wedi cael budd. Lle mae gan y Cyngor y wybodaeth hon rywle arall, dylai ei chynnwys gyda'r amcan gwella.

## Amcan gwella – Hyrwyddo a galluogi annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau drwy ddarparu tai gofal ychwanegol a moderneiddio gofal yn y cartref

54 Mae'r amcan gwella wedi'i gysylltu'n glir â themâu strategol a Chynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod y Cyngor eisoes yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau a fydd oll yn cyfrannu at ei gyflawni. Mae hefyd yn ategu Strategaeth Pobl Hŷn y Cyngor.

55 Mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd tuag at wella safonau'r llety sydd ar gael i'r henoed ac wedi gwneud penderfyniadau anodd i gau rhai cartrefi gofal a datblygu darpariaeth 'gofal ychwanegol' newydd sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol ond yn darparu'r gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r Cyngor wedi cwblhau cam cyntaf yr ail ddarpariaeth hon ac mae'n cynllunio'r cam nesaf.

56 Gall gofal o ansawdd da yn y gymuned wella lles pobl a lleihau'r angen i bobl fynd i'r ysbyty neu i gartrefi gofal. Gall gwtogi'r amser y mae'r rheini y mae angen iddynt fod yn yr ysbyty yn ei gymryd i wella, drwy sicrhau bod y cymorth sydd ei angen arnynt i fynd adref ar gael neu drwy sicrhau bod gofal priodol ar gael iddynt os na allant wneud hynny. Mae hyn yn osgoi sefyllfa o flocio gwelyau mewn ysbytai. Gall wella ansawdd bywyd pobl drwy eu helpu yn y gymuned am gyfnod hwy a gohirio neu hyd yn oed ddileu'r angen iddynt fynd i gartrefi gofal.

57 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty wedi bod yn fach iawn, ond ar gyfer 2009-10 cynyddodd i 7.81 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd, gan roi'r Cyngor yn y 17eg safle o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn partneriaeth â chynghorau

cyfagos, sef Prosiect Eiddilwch Gwent, sydd newydd sicrhau cyllid cenedlaethol ac sy'n anelu at wella cymorth cymunedol, ehangu annibyniaeth a hefyd leihau nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty a'r achosion o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Byddwn yn monitro'r prosiect wrth iddo ddatblygu er mwyn nodi arfer da ac asesu a yw'n cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr a gofalwyr. Ochr yn ochr â'r mentrau hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu annog mwy o bobl i ddefnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol sy'n rhoi mwy o gyfle i bobl leisio barn am y ffordd y caiff ei gofal ei ddarparu. Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r cynllun hwn yn fach iawn ym Mlaenau Gwent o gymharu â gweddill Cymru.

58 Gyda geiriad presennol ei amcan gwella, 'hyrwyddo a galluogi annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau...' gallai'r Cyngor gyflawni ei amcan drwy hyrwyddo annibyniaeth heb fod unrhyw un mewn gwirionedd yn well ei fyd. Byddai'r amcan gwella yn canolbwyntio fwy ar ganlyniadau pe bai'r geiriad yn darllen 'gwella annibyniaeth pobl hŷn drwy ofal ychwanegol a moderneiddio gofal yn y cartref' neu rywbeth tebyg. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor wedi nodi'n glir pwy fydd yn cael budd o hyn, ai dim ond defnyddwyr presennol y gwasanaeth neu'r holl bobl hŷn sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y Cyngor ac a allai gael budd.

59 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi lleihau nifer yr henoed mewn cartrefi gofal ac wedi cynyddu nifer y bobl a all aros yn eu cartrefi eu hunain, drwy gael cymorth. Mae'r Cyngor bellach yn gwario mwy ar ofal yn y gymuned nag ar ofal sefydliadol. Dylai'r amcan gwella ategu'r duedd hon er nad yw'r Cyngor wedi nodi sut y mae'n bwriadu mesur annibyniaeth er mwyn dangos pa welliant a gyflawnwyd neu sut y gall gwasanaethau yn y cartref ategu annibyniaeth.

Mae cysylltiadau â Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol neu fesurau lleol yn wan. Prin iawn yw'r data llinell sylfaen a gynhwysir yn y wybodaeth ategol ar gyfer yr amcan gwella ac mae'n canolbwyntio ar faterion cyllidebol yn hytrach nag ansawdd a gwell annibyniaeth. Mae gan y Cyngor wybodaeth berthnasol mewn mannau eraill a bydd angen iddo ymdrin â'r hepgoriadau a'r gwendidau hyn wrth fonitro ei amcan gwella a chyflwyno adroddiadau arno er mwyn dangos yn glir bod annibyniaeth gynyddol wedi bod o fudd i hen bobl.

## Amcan gwella – Datblygu a gwella ymhellach sianelau mynediad i wasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion

60 Mae'r amcan gwella hwn yn un dilys gan ei fod yn gydnaws â themâu strategol y Cyngor fel busnes a chydag agweddau gwella argaeledd gwasanaethau ac arloesed canllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

61 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i ysgogi gwelliant.

62 Canfu'r Bwrdd fod y Cyngor wedi cydymffurfio i raddau helaeth â'i Gynllun Iaith Gymraeg o ran dogfennaeth etholiadol, ond nad oedd wedi gwneud cystal o ran ei wefan. Bellach disgwylir i'r Cyngor lunio cynllun gwella i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn poeni am allu'r Cyngor i gynnig rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi ei Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar waith, ond bu rhywfaint o oedi wrth gymeradwyo Strategaeth Iaith Gymraeg ddiwygiedig ac ar hyn o bryd mae diffyg data ar berfformiad. O ganlyniad, mae'r Cyngor mewn perygl o fethu â chynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg ac yn methu â chynllunio ar gyfer yr hirdymor.

63 Yn 2009, roedd 15.5 y cant o boblogaeth Blaenau Gwent yn gallu siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig yn is na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru, y gyfran isaf ond un o blith awdurdodau lleol Cymru. Yn 2009-10, canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yw 3.8 y cant, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 19 y cant. Yng Nghyfnod Allweddol 3, noda'r Cyngor nad aseswyd unrhyw ddisgyblion yn Gymraeg am fod addysg Gymraeg i ddisgyblion o Flaenau Gwent yn cael ei darparu y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Y cyfartaledd yw 16 y cant.

64 Mae'r Cyngor eisoes yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella profiadau defnyddwyr gwasanaethau o ymdrin â hwy. Ceir un enghraifft o hyn ym maes prosesu ceisiadau am fudd-daliadau. Noda'r Cyngor welliannau sylweddol yn y ffordd yr ymdrinnir â galwadau ffôn sy'n ymwneud â cheisiadau newydd ac ymholiadau, amseroedd prosesu cyflymach a gwell boddhad ymhlith defnyddwyr. Mae cysylltiadau wyneb yn wyneb wedi lleihau 40 y cant ac mae'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd wedi lleihau o 45 diwrnod i 21.3 diwrnod a'r amser a gymerir i ymdrin â newid mewn amgylchiadau wedi lleihau o 35.3 diwrnod i 8.6 diwrnod. Mae'r gwelliant hwn yn deillio o adolygiad meddwl trwy systemau a gynhaliwyd gan y Cyngor.

65 Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid a'r cyhoedd i lunio Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ddrafft a gaiff ei chyflwyno i'r Weithrediaeth i'w chymeradwyo ddechrau 2011. Mae'r amcan yn ategu'r strategaeth hon ac yn adlewyrchu'r Cynllun Gwella Corfforaethol. Mae'r Cyngor wrthi'n gwella ei ddealltwriaeth o'r galw gan gwsmeriaid. Gallai'r data y mae canolfan gyswllt C2BG y Cyngor yn ei gasglu wrth ymdrin â'r cyhoedd fod yn ffynhonnell wybodaeth dda ond hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor yn ei ddadansoddi. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried ar hyn o bryd sut y gellir defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan yr amrywiol dimau yn y ffordd orau a sut y gellir ei dadansoddi i gefnogi gwelliannau yn y Cyngor ac i ddefnyddwyr gwasanaethau.

66 Er gwaethaf yr amrywiaeth o weithgarwch y mae'r Cyngor yn ymgymryd ag ef i wella gwasanaeth i gwsmeriaid, nid yw'n glir sut y bydd yr amcan gwella hwn o fudd i ddinasyddion. Nid yw'n amlwg sut y mae pob elfen o'r gweithgarwch ategol yn cyfrannu at yr amcan gwella. Mae llawer o'r gweithgarwch ategol yn canolbwyntio naill ai ar wella ymwybyddiaeth o wasanaethau yn hytrach na mesur y nifer y bobl sy'n eu defnyddio, yn arbennig ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd neu ar wella canlyniadau prosesau mewnol. Mae'r Cyngor yn derbyn bod rhagor o waith i'w wneud o fewn gwasanaethau i sicrhau eu bod yn mireinio eu hamcanion gwella fel eu bod yn canolbwyntio fwy ar ganlyniadau i ddinasyddion ac i wella'r mesurau ategol a'r wybodaeth am berfformiad yn unol â hynny.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu pobl i ddatblygu?

67 Mae lefelau uchel o ddiweithdra ac amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ym Mlaenau Gwent yn ffactorau sy'n effeithio ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion a lefelau sgiliau a chymwysterau ymhlith pobl ifanc ac oedolion. Yn 2008, roedd gan Flaenau Gwent y pumed gyfradd uchaf o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru. Fodd bynnag, mae perfformiad ysgolion ym Mlaenau Gwent yn aml islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl hyd yn oed ar ôl ystyried ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Ar gyfer sawl dangosydd cenedlaethol sy'n ymwneud â pherfformiad addysgol, y Cyngor yw'r un sy'n perfformio waethaf yng Nghymru ac ar gyfer llawer o ddangosyddion eraill, gan gynnwys presenoldeb, mae'n llawer is na'r cyfartaledd. Ymhlith oedolion, mae lefelau cymwysterau wedi gwella ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond maent yn dal yn sylweddol is na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad addysgol yn dibynnu ar amrywiaeth cymhleth o ffactorau cymdeithasol a ffactorau sefydliadol, na all y Cyngor reoli'r rhan fwyaf ohonynt yn uniongyrchol. Felly, ni all canlyniadau arholiadau a phrofion ar eu pen eu hunain ddangos a yw prosiectau neu ffrydiau gwaith y Cyngor yn llwyddiannus. At hynny, mae angen i gymwysterau fod yn berthnasol i'r economi leol er mwyn gwella sgiliau.

68 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu pa mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn ysgol megis meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn gweithio gydag Estyn i asesu pa mor dda y mae'r Cyngor yn cefnogi'r holl wasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

69 Canfu arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor gan Estyn ym mis Hydref 2008 fod nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion ym maes rheolaeth strategol, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles, anghenion dysgu ychwanegol a mynediad. Roedd y rhagolygon ar gyfer gwella yn gyffredinol dda ond gyda rhwystrau mewn rhai meysydd pwysig. Gwnaeth yr arolygwyr argymhellion i sicrhau gwelliant, gan gynnwys datblygu strategaethau i leihau lleoedd gwag mewn ysgolion a gwella adeiladau ysgolion, i wella cynhwysiant a chymorth o ran gwella ysgolion a hefyd i wella canlyniadau, yn arbennig i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol.

70 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Trawsnewid Addysg tair blynedd ar gyfer trawsnewid addysg holl ddisgyblion a dysgwyr yr ardal, wedi cwblhau'r ymgynghoriad arni ac wedi ei chymeradwyo. Nod y cynllun hwn yw gwella cyrhaeddiad disgyblion, trefniadau rheoli perfformiad, rheolaeth gyllidebol ysgolion a gwasanaethau cymorth addysg a lleihau lleoedd gwag mewn ysgolion. Mae'r cynllun hefyd yn anelu at ddatblygu seilwaith ysgolion a chefnogi'r prosiect cyfalaf sylweddol sy'n mynd rhagddo ar hen safle'r gwaith dur. Mae hyn yn cynnwys ysgol ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 16 oed, ysgol anghenion addysgol arbennig, canolfan integredig i blant, cyfleusterau hamdden a champws addysg bellach a fydd yn ailstrwythuro addysg ôl-16. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid Addysg i roi'r strategaeth ar waith.

## Amcan gwella – Cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynghylch cynigion ar gyfer addysg ôl-16 ar safle'r gwaith dur er mwyn cyfrannu at drawsnewid addysg a dysgu ym Mlaenau Gwent

71 Mewn ardal lle mae lefelau diweithdra mor uchel, mae'n amlwg ei bod yn bwysig i'r Cyngor roi blaenoriaeth i gynigion i wella sgiliau pobl ifanc ac oedolion. Er y bu rhywfaint o gynnydd, bu'r cynnydd hwn yn araf, felly mae pennu'r maes hwn fel maes lle mae angen gwneud ymdrech ychwanegol yn gam synhwyrol iawn ac yn adlewyrchu themâu strategol a blaenoriaethau Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor.

72 Mae'r camau gweithredu i gyflawni'r amcan gwella yn canolbwyntio'n llwyr ar lunio cynllun i gynnal ymgynghoriad a'r camau gweithredu cysylltiedig. Er bod hyn yn gam cyntaf pwysig tuag at broses drawsnewid a ddylai fod o fudd i ddinasyddion, ni fydd ynddo'i hun yn cyflawni'r nod hwn. At hynny, nid yw'r wybodaeth sy'n ategu'r amcan gwella yn nodi'n glir y broblem y mae'n anelu at ymdrin â hi. Yn rhannol, mae hyn oherwydd na cheir esboniad o'r gydberthynas rhwng cynnal ymgynghoriad a gwella perfformiad. Ni roddir llinell sylfaen o berfformiad presennol y gellir barnu gwelliant yn ei erbyn ac ni chynhwysir unrhyw fesurau i ddangos sut y bydd pobl yn well eu byd. Mae gan y Cyngor rywfaint o'r data hwn yn yr achos busnes ar gyfer datblygu campws dysgu ac mae angen iddo ei gynnwys gyda'r amcan gwella er mwyn hwyluso'r broses o'i fonitro a chyflwyno adroddiadau arno.

## Amcan gwella - Cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16, neu sydd mewn perygl o ymuno â'r categori hwn

73 Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ym Mlaenau Gwent yn gydnaws â themâu strategol a blaenoriaethau Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor. Mae hefyd yn cysylltu â mentrau eraill y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt megis JobMatch, Dysgu Seiliedig ar Waith a'r rhaglen Pontydd i Waith a luniodd gytundeb gwella gyda Llywodraeth y Cynulliad ac sydd wedi cyflawni ei thargedau hyd yn hyn. Yn 2009, roedd yn hysbys nad oedd 6.6 y cant o'r bobl ifanc a adawodd yr ysgol ar ôl blwyddyn 11 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru[6].

74 Cynyddodd canran yr holl ddisgyblion ym Mlaenau Gwent dros 15 oed sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy o 3.0 y cant yn 2008-09 i 3.7 y cant yn 2009-10. O ganlyniad, perfformiad y Cyngor oedd y perfformiad gwaethaf o blith holl gynghorau Cymru. Canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau ym Mlaenau Gwent yn 2008 oedd 21.1 y cant. Mae'r ganran hon wedi gwella'n raddol ers 2001 ond mae'n is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 14.6 y cant. Canran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel 4 NQF neu uwch yn 2009 oedd 19.3 y cant. Canran Blaenau Gwent yw'r drydedd ganran isaf yng Nghymru. Cyfartaledd Cymru yw 29.6 y cant.

6 Ffynhonnell: Llywodraeth y Cynulliad/Stats Wales

75 Yn ogystal â gwella cyflogadwyedd a chyfranogiad economaidd, gall lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant hefyd gael effaith ar faterion cymdeithasol ac economaidd eraill sy'n flaenoriaethau ym Mlaenau Gwent. Er enghraifft, gall gyfrannu at leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lefelau perchentyaeth uwch, gwell iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llai o achosion o feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau.

76 Er bod yr amcan gwella yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae'r camau gweithredu sy'n ei ategu yn ymwneud â datblygu strategaethau a rhaglenni ac felly'n canolbwyntio ar wella prosesau yn hytrach na chanlyniadau. Nid yw'r Cyngor wedi egluro graddau'r broblem, lefelau perfformiad presennol, pwy fydd yn cael budd, sut y byddant yn cael budd na maint y budd hwnnw a sut y bydd y Cyngor yn mesur gwelliant. Yn ddiweddar, gwnaethom hwyluso gweithdy gyda rheolwyr y Cyngor lle yr ystyriwyd gyda hwy sut y gellid gwella'r amcan gwella hwn a'r mesurau a'r wybodaeth sy'n ei ategu er mwyn dangos yn gliriach y gwelliannau i bobl leol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y gweithdy hwn i fireinio ei ddull gweithredu cyn ailgyhoeddi ei amcanion gwella y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

77 Mae adfywio ffisegol, cymdeithasol ac economaidd yn flaenoriaethau i'r Cyngor ac mae ganddo hanes da o sicrhau cyllid cyhoeddus allanol ar gyfer prosiectau adfywio mawr. Cefnogwyd y gwaith o ailsefydlu'r rheilffordd i Gaerdydd ac adfywio safle hen waith dur Glynebwy gan gyllid Menter Blaenau'r Cymoedd Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r prosiect hwn yn galw am gryn dipyn o waith partneriaeth a bydd yn cynnwys ysbyty newydd, cyfleusterau hamdden, darpariaeth ysgol berthnasol a Pharth Dysgu ôl-16. Pe bai'r prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn llwyddiannus, gallai arwain at fuddiannau sylweddol i'r gymuned.

78 Gwnaethom ystyried ymagwedd y Cyngor tuag at adfywio gan ddod i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith strategol ar gyfer adfywio sy'n cysylltu egwyddorion polisi, blaenoriaethau a chynlluniau gweithredu. Mae maint y prosiectau adfywio y mae'r Cyngor yn ymgymryd â hwy a dibyniaeth uchel y prosiectau hyn ar gyllid allanol yn gofyn am drefniadau goruchwylio a rheoli risg parhaus. Yn ddiweddar, ad-drefnodd y Cyngor ei hun er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau yn hyn o beth a byddwn yn parhau i fonitro llwyddiant y trefniadau hyn.

79 Cyfradd droseddu Blaenau Gwent yw 90.18 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Difrod troseddol (25 y cant) a throseddau eraill sy'n ymwneud â dwyn (19 y cant) sy'n gyfrifol am gyfrannau uchaf y gyfradd hon. Mae cyfradd droseddu gyffredinol Blaenau Gwent bumed yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ond, mae wedi gostwng yn gyson dros y saith mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd, mae dri chwarter y ffigur ydoedd saith mlynedd yn ôl. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent a gwasanaethau eraill i geisio canfod pa mor ddiogel yw ei gymunedau a'u gwneud yn fwy diogel. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill megis sefydliadau gwirfoddol i ddeall materion sy'n achosi problemau mewn ardaloedd lleol ac i adeiladu cymunedau cryfach.

80 Mae Arolygwyr Prawf Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiadau o waith â throseddwyr ifanc. Ym mis Medi 2010, gwnaethant gyhoeddi adroddiad ar waith gyda throseddwyr ifanc yn yr ardal a gwmpesir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Archwiliodd y tîm arolygu ansawdd y gwaith a wneir i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, i ddiogelu'r cyhoedd drwy leihau'r perygl o niwed i eraill ac i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r unigolyn yn aildroseddu. Ymhob un o'r meysydd hyn, mae'r tîm yn asesu pa un a oes angen gwelliant bach, cymedrol, sylweddol neu ddifrifol yn y dyfodol agos. O ran diogelu a'r perygl o niwed, daeth y tîm i'r casgliad fod angen gwelliant sylweddol ac o ran aildroseddu, fod angen gwelliant cymedrol. Yn gyffredinol, daeth y tîm i'r casgliad fod gan y gwasanaeth ym Mlaenau Gwent a Chaerffili staff ymroddedig, sy'n gallu ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd a hefyd bod asiantaethau partner yn darparu cefnogaeth dda i reolwyr achos. Ond, mae angen rhagor o waith i sicrhau bod cynlluniau ac asesiadau yn amserol ac o ansawdd da. Gwnaeth y tîm argymhellion ar gyfer gwella, yn arbennig o ran asesu anghenion troseddwyr a chynllunio ar gyfer sut i ymateb iddynt. Mae'r gwasanaeth wedi llunio cynllun gweithredu ac wedi cytuno arno.

## Amcan gwella - Datblygu gwasanaethau gwastraff sy'n dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac sy'n gwella cyfraddau ailgylchu a chompostio ymhellach

81 Ar hyn o bryd, mae perfformiad y Cyngor o'i gymharu â chynghorau eraill mewn perthynas â rheoli gwastraff yn wael. Yn 2009-10, effeithiodd tywydd garw yn ystod y gaeaf ar gasgliadau gwastraff y Cyngor ac anfonwyd 70.8 y cant o wastraff i safleoedd tirlenwi, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 55.75 y cant. Yn yr un flwyddyn, anfonwyd 68.58 y cant o wastraff trefol bioddiraddadwy i safleoedd tirlenwi a chafodd

7.27 y cant o wastraff trefol ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. Perfformiad y Cyngor oedd y perfformiad gwaethaf o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru yn erbyn y dangosyddion hyn. Ailddefnyddiodd a/neu ailgylchodd y Cyngor 21.93 y cant o'i wastraff trefol ac roedd yn yr ugeinfed safle allan o 22. Canran y Cyngor o ran y gwastraff trefol a dderbynnir mewn safleoedd amwynder gwastraff cartref a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd y ganran isaf ond dwy. Perfformiad y Cyngor yw'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru yn erbyn targedau Llywodraeth y Cynulliad o 40 y cant ar gyfer ailgylchu a chompostio, gan gyflawni canran o 29 y cant yn unig.

82 Yn y dyfodol, bydd cynghorau sy'n methu â chyflawni targedau'r UE ar gyfer dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yn wynebu dirwyon ariannol uchel iawn. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrywiaeth o newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys casgliadau gwastraff domestig gweddilliol bob pythefnos ac mae'n bwriadu cyflwyno mwy. Mae'r Cyngor yn nodi gwelliannau diweddar o ran cyfraddau ailgylchu ac ymdrechion i leihau'r gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol mewn consortiwm rhanbarthol i ddatblygu dewisiadau amgen i safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff gweddilliol ac mae hefyd yn gweithio gyda dau gyngor cyfagos, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar brosiect i gaffael cyfleusterau trin gwastraff organig. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor eto yn llwyddo i gasglu'r deunydd sydd ei angen ar gyfer prosesydd o'r fath ac mae ei allu i gyflawni targedau yn y dyfodol yn parhau yn y fantol. Gall problemau pellach godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau i drefniadau cyllid grant Llywodraeth y Cynulliad ac mae risg fawr y bydd y gwasanaeth yn methu ac y bydd costau yn cynyddu i bob Cyngor.

83 Mae'n briodol bod y Cyngor yn awyddus i wella ei berfformiad yn y maes hwn, ac mae amcan gwella i wella hyn yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu, y mesurau na'r wybodaeth ategol ar gyfer yr amcan gwella yn egluro sut y bydd hyn yn digwydd a sut y bydd o fudd i bobl leol. Y rheswm am hyn yw bod ffocws y gweithgarwch ar gadw wardeniaid, mentrau mewn ysgolion a chodi tâl am wastraff masnachol ac ni cheir esboniad o'r ffordd y mae'r camau gweithredu hyn yn cyfrannu at yr amcan gwella. Nid yw'r wybodaeth ategol yn nodi maint y broblem, mesurau perfformiad sy'n cysylltu â chanlyniadau, lefelau perfformiad presennol na thargedau ar gyfer gwella. Roedd rhai o'r mesurau cynnydd yn ymwneud â lefelau cyfranogiad mewn cynlluniau yn hytrach nag effaith fwriadedig y cynlluniau hyn. Ni cheir unrhyw gyfeiriad at rôl partneriaid na mentrau cysylltiedig a allai gyfrannu at gyflawni'r amcan ac ni cheir gwybodaeth am sut y caiff camau gweithredu'r Cyngor eu hariannu na'u rhoi ar waith mewn cynlluniau gwasanaeth.

## Amcan gwella - Datblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n gwella glendid y fwrdeistref sirol

84 Yn 2009-10, sgoriodd y Cyngor 64.1 y cant ar fynegai glendid Llywodraeth y Cynulliad, sef y perfformiad gwaethaf o blith holl gynghorau Cymru ar gyfer 2009-10. Mae cyfradd glendid priffyrdd a thir perthnasol ym Mlaenau Gwent wedi amrywio ers 2005-06 ond dyma oedd y gyfradd isaf o blith cynghorau Cymru drwy gydol y cyfnod hwn ac yn 2008-09, roedd fwy nag wyth pwynt canran yn is na'r ganran nesaf ati.

85 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella glendid Blaenau Gwent. Perfformiad Blaenau Gwent oedd y seithfed uchaf o blith cynghorau Cymru o ran y ganran o achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt a gliriwyd o

fewn pum diwrnod gwaith, gyda 98.08 y cant o achosion yn cael eu clirio o fewn yr amserlen hon. Cymerwyd camau gorfodi mewn 74.23 y cant o achosion o dipio anghyfreithlon, y ffigur uchaf ond un ar gyfer cynghorau Cymru ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18.44 y cant.

86 Mae'r amcan gwella yn adlewyrchu lefel y pryder a fynegwyd gan y cyhoedd yn yr Arolwg Trigolion a gynhaliwyd yn 2009 a hefyd drwy weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol ddrafft. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi egluro sut y mae'r amcan gwella o fudd i ddinasyddion. Er bod y Cyngor yn bwriadu gwella'r ffordd y mae'n helpu perchenogion cŵn i atal achosion o gŵn yn baeddu a'i fod yn defnyddio'r gweithgareddau hyn fel mesurau, nid yw wedi datgan lefel y gwelliant y mae'n disgwyl ei chyflawni. Nid ategir yr amcan gwella gan gyfres o fesurau, llinellau sylfaen na thargedau. Bydd angen i'r Cyngor ddatblygu'r rhain er mwyn iddo allu dangos gwelliannau i bobl a gwella boddhad dinasyddion.

## Amcan gwella - Cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol

87 Yn 2008-2009, ym Mlaenau Gwent, roedd cyfran y ffyrdd dosbarth 'A' mewn cyflwr gwael yn llawer uwch na'r sefyllfa yng Nghymru yn gyffredinol er ei bod yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Cyfran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol mewn cyflwr gwael oedd 13.8 y cant, y perfformiad gwaethaf ond dau o blith cynghorau Cymru. Gwariwyd tua 22.39 y cant o'r gwariant blynyddol ar waith cynnal a chadw strwythurol ar geisiadau a oedd yn ymwneud â chyflwr priffyrdd yn 2008-09, y ffigur uchaf ond dau yng Nghymru. Dim ond 66.87 y cant o'r gwariant blynyddol ar waith cynnal a chadw strwythurol a wariwyd ar waith cynnal a chadw strwythurol cynlluniedig yn 2008-09. Dyma oedd y swm isaf ond dau o blith yr 20 o gynghorau a gyflwynodd y data hwn. Ym Mlaenau Gwent, roedd y gyfradd (fesul pen o'r boblogaeth) marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru. Yn ddiweddar, gwnaeth y Cyngor y penderfyniad anodd i ddiffodd rhai goleuadau stryd penodol, er mwyn arbed arian a lleihau ôl-troed carbon y Cyngor ond mae ei berfformiad o ran eu trwsio yn gryf o gymharu â chynghorau eraill. Yn 2009-10, cymerodd y Cyngor 1.04 diwrnod ar gyfartaledd i drwsio lampiau stryd a oedd wedi torri. Dyma oedd yr ymateb cyflymaf ond un o blith cynghorau Cymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 3.69 diwrnod. Gall y Cyngor o bosibl leihau ei lefel perfformiad bresennol er mwyn cyfeirio ei ymdrechion tuag at flaenoriaethau.

88 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyflwr y ffyrdd yn ffactor sy'n llywio canfyddiadau pobl o'r ardal a pherfformiad y Cyngor. Gall hefyd effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd a datblygu economaidd a gall gael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor os bydd cydbwysedd amhriodol rhwng gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a gwaith cynnal a chadw ymatebol yn arwain at ddirywiad cyffredinol graddol yng nghyflwr y rhwydwaith. Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio trefniadau benthyca darbodus i'w helpu i ariannu ei gynlluniau i wella cyflwr y priffyrdd.

89 Nid yw'r wybodaeth ategol ar gyfer yr amcan gwella yn egluro pa un ai ffocws yr amcan yw gwella cyflwr y priffyrdd, cynnal a chadw'r gyfran bresennol (wyth y cant) o ffyrdd y mae angen cynnal gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd arnynt neu wneud arbedion. Ni nodwyd y buddiannau i ddinasyddion na defnyddwyr y ffyrdd ac mae'r mesurau llwyddiant yn ymwneud â dau Ddangosydd Perfformiad cenedlaethol nad ydynt yn seiliedig ar ganlyniadau. Dim ond hanner y mesurau bwriadedig sy'n cynnwys data llinell

sylfaen ac ar gyfer rhai o'r camau gweithredu, nid yw'n glir sut y maent yn berthnasol i'r amcan gwella. Ar hyn o bryd, mae angen cyllid ychwanegol ar y Cyngor i gynnal ei gamau gweithredu bwriadedig er mwyn cyflawni'r amcan gwella ond nid yw'r cyllid hwn ar gael eto. Er mwyn gwneud gwelliannau o fewn yr adnoddau presennol, mae'n debygol y bydd angen gwneud penderfyniadau gwleidyddol sensitif i flaenoriaethu rhai ffyrdd penodol a thargedu'r adnoddau sydd ar gael at y ffyrdd hynny. O ganlyniad, bydd cyflwr y ffyrdd nad ydynt yn cael blaenoriaeth yn dirywio.

90 Mewn sesiwn gweithdy diweddar gyda rheolwyr y Cyngor, archwiliwyd y modd y gellid gwella'r mesurau a'r wybodaeth sy'n ategu'r amcan gwella hwn er mwyn dangos yn gliriach y gwelliannau i bobl leol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y gweithdy hwn i fireinio ei ddull gweithredu cyn ailgyhoeddi ei amcanion gwella y flwyddyn nesaf.

## Amcan gwella - Rhoi cefnogaeth a chymorth uniongyrchol i fusnesau lleol er mwyn cynnal lefelau buddsoddi ac adfywio economaidd

91 Yn briodol, mae llawer o weithgareddau gwella'r Cyngor wedi'u hanelu at adfywio'r ardal ac mae'n briodol bod y Cyngor yn anelu at gefnogi busnesau lleol. Yn 2008, roedd 1,020 o fusnesau wedi'u cofrestru at ddibenion TAW ym Mlaenau Gwent, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag adeiladu (15 y cant) a manwerthu (14 y cant). Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn ffordd o fesur maint economi ardal. Ym Mlaenau Gwent, y GYC y pen yn 2007 oedd £11,397, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru a'r lefel isaf ond un ar y cyd ag awdurdod arall o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2007, bu'r GYC y pen ym Mlaenau Gwent yn gyson is na chyfartaledd Cymru. Mae Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn mesur lefel yr incwm gwario sydd ar gael i gartrefi. Yn 2007, lefel yr Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen ym Mlaenau Gwent oedd £11,677, sef yr isaf, ar y cyd ag awdurdod arall, o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2007, bu'r Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen ym Mlaenau Gwent yn is na chyfartaledd Cymru, gyda'r bwlch yn lledu ychydig yn ystod y cyfnod hwn. Dangosodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2008) fod 21.3 y cant o wardiau Blaenau Gwent ymhlith y 10 y cant o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru.

92 Nid yw'r Cyngor wedi egluro pwy fydd yn cael budd o'r amcan gwella hwn ond mae'r mesurau llwyddiant y bydd yn eu defnyddio yn amlygu buddiolwyr penodol, er enghraifft, drwy gadw pobl mewn cyflogaeth neu greu swyddi. Caiff rhai o'r mesurau eu hategu gan dystiolaeth a llinellau sylfaen i ddangos cynnydd megis nifer y swyddi a gaiff eu creu. Ond nid yw'r cysylltiadau rhwng camau gweithredu a mesurau bob amser yn glir ac nid yw cyfraniad rhai o'r camau gweithredu at yr amcan o gynnal adfywiad economaidd yn amlwg. Mae'r cysylltiadau rhwng yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud a'r canlyniadau bwriadedig yn wan mewn nifer o feysydd ac yn anodd eu profi, er enghraifft, nifer y swyddi a gaiff eu cynnal. Caiff targedau eu pennu ond dim ond mewn perthynas ag un elfen o'r amcan gwella, sef darparu cyllid grant i raglenni sy'n creu swyddi. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ba un a fydd cyllid ar gael ac nid yw'n amlwg a yw'r cyllid hwnnw ar gael ai peidio. Er mai amcan gwella i'r Cyngor yw'r amcan gwella hwn, gallai'r wybodaeth ategol gyfeirio at sut y gallai gwaith sefydliadau partner ategu'r broses, ond nid yw'n gwneud hynny. Yn ogystal, ni cheir unrhyw wybodaeth am bethau megis y defnydd o weithdai ac adeiladau ar brydles y Cyngor, na rôl y Cyngor fel cyflogwr a chaffaelwr nwyddau a gwasanaethau, i annog gwaith adfywio economaidd. Lle mae gan y Cyngor y wybodaeth hon, dylai ei chynnwys gyda'r amcan gwella.

## Amcan gwella - Cynnal a gwella canol trefi drwy waith adfywio ffisegol a threfniadau rheoli canol trefi

93 Mae'r amcan hwn yn ymwneud ag agwedd arall ar raglen y Cyngor i adfywio'r fwrdeistref. Mae wedi'i gysylltu'n glir â'r themâu strategol a nodir yn y Cynllun Gwella Corfforaethol. Mae rhywfaint o'r gweithgarwch a gynlluniwyd i gyflawni'r amcan wedi'i gysylltu â chreu swyddi ac mae rhywfaint wedi'i gysylltu â lleihau canfyddiadau o droseddau. Gan fod yr amcan yn cyfeirio at gynnal a gwella, nid yw'n gwbl glir pa wahaniaeth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ddinasyddion. Nid yw'r Cyngor wedi egluro pwy fydd yn elwa ar gyflawni'r amcan ac nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng llawer o'r mesurau a chanol trefi. Dim ond cyfeiriadau prin a geir at rôl partneriaid a'r hyn y gallant ei gyfrannu, yn ychwanegol at gyfraniad y Cyngor. Cynhwysir rhai targedau ond mae'n bosibl eu bod yn rhy uchelgeisiol, er enghraifft, cynyddu trosiant 30 y cant i fusnesau sy'n cymryd rhan.

94 Mae'r Cyngor wedi ein hysbysu ei fod yn bwriadu cyflwyno budd i gymuned fusnes canol trefi, yn arbennig busnesau bach annibynnol a hefyd y gymuned leol ehangach sy'n defnyddio canol trefi. Mae'r targed i gynyddu trosiant yn ymwneud yn benodol â busnesau sy'n cael cyllid grant. Dylai'r Cyngor wella'r wybodaeth sy'n ategu'r amcanion gwella er mwyn egluro'r meysydd lle ceir ansicrwydd.

# Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ei wneud?

95 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

96 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell camau ymyrryd nac arolygiad ac nid yw'n gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella. Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud cynnydd yn rhai o'r meysydd a nodwyd gennym yn ein gwaith cynharach.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- datblygu blaenoriaethau clir sy'n cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor, a gefnogir gan fframwaith strategol, yn cynnwys strategaethau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol tymor canolig, cynllunio'r gweithlu, TGCh a rheoli asedau;
- sicrhau bod y Cynllun Gwella Corfforaethol yn adeiladu ar y rhan a chwaraeir gan y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y broses o bennu blaenoriaethau a sicrhau bod y Cyngor yn dangos arweinyddiaeth gymunedol i reoli disgwyliadau dinasyddion yng nghyd-destun llai o arian cyhoeddus;
- datblygu dull o herio gwerth am arian a chynaliadwyedd patrymau a dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau ymhob gwasanaeth a'i gymhwyso'n gyson;
- hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn fwy effeithiol o ran cyfrifoldeb statudol y Cyngor i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus mewn perthynas â'i swyddogaethau;
- paratoi'r Cod Llywodraethu, gan nodi egwyddorion a threfniadau llywodraethu'r Cyngor, a ddylai fod wedi cael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2010, ar fyrder.

## Cynigion newydd

Dylai'r Cyngor wneud fel a ganlyn:

- cyhoeddi ei amcanion gwella yn gynharach yn y dyfodol, yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad;
- nodi sut y bydd y gwelliannau a nodir yn ei amcanion o fudd i ddinasyddion, a sicrhau y gellir eu cyflawni yng nghyd-destun llai o adnoddau;
- datblygu mesurau llwyddiant wedi'u hategu gan wybodaeth am berfformiad y Cyngor ar hyn o bryd, ei dargedau, dadansoddiad o gostau a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill;
- nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn;
- cymhwyso'r dull o bennu amcanion gwella, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar yr amrywiaeth llawn o swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau.' Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[7].

7 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a gwaith cynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn/allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Aelodau'r Cynulliad dros Flaenau Gwent yw:
- Trish Law, Blaenau Gwent, Annibynnol

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yw:
- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Veronica German, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelod Seneddol dros Flaenau Gwent yw: Nick Smith, y Blaid Lafur

Ceir 42 o Gynghorwyr ar gyfer Blaenau Gwent sy'n cwmpasu 16 o wardiau, sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:
- 21 o Aelodau Annibynnol
- 17 o'r Blaid Lafur
- Dau Ddemocrat Rhyddfrydol
- Dau nad ydynt yn aelodau o unrhyw blaid

Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys yr Arweinydd, y Cynghorydd Des Hillman a naw Cynghorydd arall, a gaiff eu penodi bob blwyddyn gan y Cyngor. Mae'r Weithrediaeth yn paratoi polisïau a strategaethau ac yn llywio gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu.

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr. Robin Morrison. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Ymgynghorydd Polisi'r Cyngor.

Yn 2009-10, gwariant refeniw'r Cyngor oedd £133.290 miliwn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor £39.3 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn 2009-10, treth gyngor Band D ar gyfer Blaenau Gwent oedd £1,325.12 y flwyddyn. Bydd hyn yn cynyddu 4.27 y cant i £1,381.69 y flwyddyn ar gyfer 2010-11. Mae tua 85 y cant o'r eiddo ym Mlaenau Gwent o fewn Bandiau A a B.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn yr Adeiladau Bwrdeistrefol, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, Gwent NP23 6XB.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mis Hydref 2010:

**Gall y Cyngor ddangos ei fod wedi cyflawni rhai gwelliannau angenrheidiol, ond hyd yma nid yw wedi datblygu'r dull gweithredu strategol cydlynol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a wynebir ganddo.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi ymateb i berfformiad gwael mewn meysydd gwasanaeth allweddol ond mae'n sylweddoli ei fod yn wynebu llawer o heriau sylweddol o hyd.

Yn y gorffennol, arweiniodd diffyg blaenoriaethau clir at ddyrannu adnoddau'n denau ac roedd y gwelliannau a wnaed yn rhai ymatebol.

Yn fwy diweddar, gwnaed cynnydd yr oedd ei angen yn fawr mewn gwasanaethau pwysig ond nid oes dull strategol o lywio gwelliannau yn cael ei gymhwyso'n gyson ymhob rhan o'r Cyngor hyd yma.

Bellach, mae'r Cyngor wedi dangos ei barodrwydd i fynd i'r afael â materion anodd ac wedi gwneud rhai penderfyniadau mawr, ac mae hefyd yn gwneud newidiadau i'w strwythur corfforaethol, sy'n gysylltiedig â gwneud arbedion o ran costau.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Er gwaethaf rhai cryfderau mewn trefniadau corfforaethol, nid yw arweinyddiaeth strategol y Cyngor wedi canolbwyntio ddigon hyd yma ar flaenoriaethau er mwyn ymateb i raddfa'r toriadau ariannol a ragwelir.

Mae llwyddiant blaenorol o ran sicrhau arian allanol ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol.

Mae rhai trefniadau ar gyfer cynnwys cymunedau a rheoli pobl, adnoddau a pherfformiad yn effeithiol, ond ceir gwendidau o ran cynllunio tymor canolig.

Nid yw arweinyddiaeth strategol y Cyngor wedi cytuno hyd yma ar y ffocws corfforaethol clir sydd ei angen i gyflawni graddfa a chyflymdra'r newid sydd ei angen.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad a geir y tu mewn i'r clawr yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'r gofynion statudol o ran adrodd ar faterion ariannol a gwella perfformiad**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**Datganiadau cyfrifyddu 2009-2010**

Ar 29 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar gyfer 2009-10, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol a balansau'r Cyngor.

Cadarnhaodd fy nhystysgrif archwilio dyddiedig 29 Medi 2010 fy mod yn ymatal rhag rhoi fy 'nhystysgrif cwblhau' statudol hyd nes y bydd aelodau'r Cyngor wedi ystyried fy adroddiad ar ddiswyddo un o gyn-gyfarwyddwyr y Cyngor, ac wedi ymateb i'r adroddiad hwnnw.

Ni nododd fy archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor unrhyw faterion perthnasol y mae angen i mi gyflwyno adroddiad arnynt yn y Llythyr Archwilio hwn. Fodd bynnag, nododd fy archwiliad rai meysydd o reolaeth weithredol y gellid eu gwella, y bydd fy nhîm archwilio yn cyflwyno adroddiad ar wahân arnynt i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Mae cyflwyno adroddiad o'r fath i bwyllgor archwilio awdurdod lleol yn arfer cymharol gyffredin gan fod materion archwilio nad ydynt yn berthnasol yn aml yn codi.

Yn ogystal â'm barn archwilio ar ddatganiadau cyfrifyddu 2009-10, canfûm fod ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan y Cyngor ar gyfer 2009-10 wedi'i pharatoi'n effeithiol ac yn unol ag amserlen Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cynllun Gwella Corfforaethol 2010-2011**

Mae Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2010-11 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cyffredinol gytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Roedd fy adolygiad yn cynnwys archwiliad o'r dangosyddion perfformiad sy'n ategu Cynllun Gwella 2010-11.

Ar gyfer y cyfnod dan sylw, roedd gan y Cyngor 38 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC). Archwiliais 25 o'r 38 o ddangosyddion. Canfûm fod angen diwygio saith o'r 25 o ddangosyddion a archwiliwyd. Nid oedd unrhyw un o'r diwygiadau hynny yn sylweddol ac, ar y cyfan, cadarnhaodd fy archwiliad fod y dangosyddion a luniwyd gan y Cyngor yn ddibynadwy ac yn gywir.

Ar gyfer 2010-11, bydd y Cyngor yn ailgyflwyno ei adolygiad sicrwydd ansawdd mewnol o'r dangosyddion perfformiad a lunnir ganddo. Er mwyn gwneud hynny, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnwys amser yn ei gynllun archwilio i gynnal adolygiadau o'r fath mewn cydweithrediad â'm staff. Disgwyliaf y bydd gwiriadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwella ansawdd cyffredinol y dangosyddion perfformiad y cyflwynir adroddiadau arnynt, a hefyd, o bosibl, yn lleihau cost yr archwiliadau a gynhelir yn y dyfodol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyflwyno sylwadau ar Gynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn ei Asesiad Gwella Blynyddol. Wrth wneud hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno sylwadau ar sut mae'r Cynllun Gwella yn cyfrannu at y ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r pethau sydd bwysicaf i bobl leol.

**Y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian**

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor wedi nodi'r materion canlynol:

Cod Llywodraethu:

- Nododd Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cyngor fod wedi cyflwyno Cod Llywodraethu (Cod) sy'n nodi egwyddorion a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Dylai'r Cod fod wedi bod ar waith erbyn 1 Ebrill 2010 fan bellaf, ond cyn hynny yn ddelfrydol.
- Mae'r canllawiau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn nodi bod llywodraethu da yn un o gyfrifoldebau allweddol Arweinydd a Phrif Swyddog Gweithredol awdurdod.
- Yn ddiweddar, cwblhaodd swyddogion y Cyngor fersiwn derfynol y Cod Llywodraethu. Ar 28 Medi 2010, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cod drafft i'r Pwyllgor Archwilio. Wedi hynny, ar 18 Tachwedd 2010, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cod i Aelodau'r Cyngor a gwnaethant ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.
- Yn gysylltiedig â chyflwyno Cod newydd, o 2010-11, bydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disodli'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn natganiadau cyfrifyddu'r Cyngor. Bydd y Datganiad Llywodraethu newydd hwn yn parhau i gael ei gwmpasu gan fy marn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu.
- Fel yr amlygwyd uchod, dylai'r Cyngor fod wedi datblygu'r Cod cyn 2010-11, a'i fabwysiadu'n llawn erbyn 1 Ebrill 2010 fan bellaf. Pe'i mabwysiadwyd felly, byddai'r trefniadau newydd wedi gallu bod ar waith drwy gydol 2010-11. Fel rhan o'm harchwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu 2010-11, byddaf yn adolygu'r ffordd y rhoddwyd y trefniadau newydd ar waith gan y Cyngor yn ystod 2010-11.

Rheoli risg:

- O ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg, canfûm y dylid cyflwyno trefniadau i gynnal prosesau sicrwydd ansawdd a dilysu gwell ar y gofrestr risg.
- Canfûm y dylai'r Cyngor wella ei drosolwg corfforaethol o'r broses asesu risgiau, a'r camau lliniaru y cytunir arnynt a'r trefniadau monitro dilynol.
- Hefyd, rwyf o'r farn y dylai'r Cyngor sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn cydnabod ei gyfrifoldebau o ran y risgiau a nodir ac y cânt eu cynnwys yn briodol ar gofrestrau risg meysydd gwasanaeth.
- Gan edrych i'r dyfodol, gallai cynigion cyfredol y Cyngor ar gyfer rheoli risg atgyfnerthu'r gwaith o reoli risgiau a lliniaru eu heffaith ar y gymuned yn well; a hefyd ddarparu gwell sicrwydd bod risgiau yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

Trefniadau ar gyfer ystyried aelodau o staff sy'n gadael yn gynnar ac aelodau o staff sy'n gadael yn ôl disgresiwn:

- Rwyf wedi archwilio trefniadau'r Cyngor ar gyfer paratoi ac ystyried achosion busnes mewn perthynas ag aelodau o staff sy'n gadael yn gynnar ac aelodau o staff sy'n gadael yn ôl disgresiwn. Canfûm wendidau yn y trefniadau sydd ar waith, ac ar 8 Tachwedd 2010, cyflwynais adroddiad ar wahân i'r Prif Weithredwr ar fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion (yr anfonais gopi ohono atoch). Eglurais yn y llythyr a anfonais gyda'r adroddiad fy mod yn cyflwyno'r adroddiad o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Felly mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â'r Ddeddf, ystyried fy adroddiad a'i argymhellion yn fuan, ac felly bydd yr Aelodau yn gwneud hynny ar 20 Rhagfyr 2010.

**Y ffi archwilio**

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ar gyfer 2009-10 fod yn uwch na'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol. Gellir priodoli'r cynnydd i'm hadolygiad o ddiswyddiad un o gyn-gyfarwyddwyr y Cyngor, ac o'r trefniadau a oedd ar waith yn y Cyngor ar gyfer ystyried achosion o adael o'r fath. Mae fy staff wedi trafod yr egwyddor o gostau archwilio ychwanegol gyda swyddogion cyllid y Cyngor. Ym mis Ionawr 2011, byddaf yn bilio'r Cyngor am y costau ychwanegol yr aed iddynt.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
25 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Cymunedol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynghylch cynigion ar gyfer addysg ôl-16 ar safle'r gwaith dur er mwyn cyfrannu at drawsnewid addysg a dysgu ym Mlaenau Gwent;
- cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16, neu sydd mewn perygl o ymuno â'r categori hwn;
- adolygu a gwella prosesau recriwtio a chadw gofalwyr maeth er mwyn gwella'r dewis o leoliadau sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal;
- hyrwyddo a galluogi annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau drwy ddarparu tai gofal ychwanegol a moderneiddio gofal yn y cartref;
- datblygu gwasanaethau gwastraff sy'n dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac sy'n gwella cyfraddau ailgylchu a chompostio ymhellach;
- datblygu dulliau darparu gwasanaethau sy'n gwella glendid y fwrdeistref sirol;
- cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol;
- datblygu a gwella ymhellach sianelau mynediad i wasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion;
- rhoi cefnogaeth a chymorth uniongyrchol i fusnesau lleol er mwyn cynnal lefelau buddsoddi ac adfywio economaidd;
- cynnal a gwella canol trefi drwy waith adfywio ffisegol a threfniadau rheoli canol trefi.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol